Y S G O L G Y F U N
RHYDYWAUN

Mr Mark Jones BEng (Hons), NPQH Pennaeth / Headteacher
Rhodfa Lawrence/Lawrence Ave, Penywaun, Aberdâr, CF44 9ES
Ffôn/Tel: 01685 813500; Ffacs/Fax: 01685 812208 ysgol@rhydywaun.org

ydd Wir Bydd Weithgar

Yr unfed ar bymtheg o Ionawr, 2018.

Eisteddfod yr Urdd 2018

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Yn gyntaf hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth yn ystod paratoadau ar gyfer Eisteddfod lwyddiannus 2017. Braf oedd gweld cynifer o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn ystod yr Eisteddfod Sir ac ar lwyfan y brifwyl. Mae'n fwriad gennym i gystadlu yn yr Eisteddfod eleni unwaith eto. Rhestraf y cystadlaethau sydd ar gael i gystadlu ynddynt isod. Fel yr wyf yn siwr eich bod yn cydnabod, mae'r cyfnod baratoi yn un hollbwysig ac am nad oes llawer o amser cyn yr Eisteddfod Sir hoffwn bwysleisio y bydd mynychu holl ymarferion cystadlaethau yn hollbwysig i'ch plentyn. Bwriadwn gynnal mwyafrif helaeth o'r ymarferion yn ystod amseroedd cinio ond efallai y bydd ambell ymarfer ar ôl ysgol. Bydd y disgyblion yn cael eu hysbysu o flaenllaw am unrhyw ymarferion a fydd yn cael eu cynnal ar ôl ysgol ac os bydd yna broblem gofynnwn yn garedig i chi ein hysbysu ni drwy alwad ffôn neu ebost os gwelwch yn dda.

Cynhelir Eisteddfod Sir yr ardal ar brynhawn dydd Mercher 21ain o Fawrth yn Ysgol Gyfun Cwm Rhondda a chynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni ar faes y sioe yn Llanewledd yn ystod hanner tymor y Sulgwyn (28ain o Fai tan yr 2il o Fehefin, 2018). Os nad ydy'r dyddiadau yma'n gyfleus i'ch plentyn gan ein bod yn ymwybodol bod yr Eisteddfod yn ystod hanner tymor lle trefnir gwyliau teuluol blynyddol i rai, gofynnwn yn garedig na fyddant yn ymrwymo i gystadlu. Os hoffech wybod am ddyddiadau penodol cystadlaethau yna chysylltwch â mi dros ebost: gwenanthomas@rhydywaun.org neu dros alwad ffôn a byddaf yn fwy na pharod i drafod unrhyw bryderon neu i ateb unrhyw gwestiynau.

Cystadlaethau:

Cyflwyniad dramatig bl. 10-13	Ymgom hyn bl.10-13	Llefaru unigol bl.7-9	Ensemble lleisiol bl.10-13
Cyflwyniad dramatig iau bl.7-9	Ymgom iau bl.7-9	Monolog bl.10-13	Unwad merched bl.7-9
Y Gerddorfa	Llefaru unigol bl.10-13	Parti llefaru bl. 7-9	Unawd bechgyn bl.7-9
Deuawd bl.7-9	Unawd merched bl.10-13	Deuawd bl.10-13	Unawd merched bl.10-13
Unawd Sioe Gerdd bl.10-13	Grwp dawnsio disgo 7-9	Dawnsio disgo unigol	Unawd offerynnol (amryw)
Cystadlaethau gwaith cartref	Cogurdd		

Os hoffai'ch plentyn gystadlu mewn cystadleuaeth neu gystadlaethau a fedrwch lenwi'r atodiad sydd ar waelod y dudalen a'i ddychwelyd ataf i erbyn dydd Llun 22ain o Ionawr os gwelwch yn dda.

Diolch i chi am eich cefnogaeth a'ch dealltwriaeth o flaenllaw ac edrychwn ymlaen at y paratoadau cyffrous,

Yn gywir,

Gwenan Thomas Mark Jones (Prifathro)

I'w ddychwelyd at Miss Gwenan Thomas erbyn Dydd Llun 22ain o Ionawr, 2018.

Enw'r disgybl: _____ Blwyddyn a dosbarth cofrestru: _____

Cystadleuaeth/au: _____

Aelod o'r urdd: Ydy : Nac ydy:

Llofnod rhiant/warcheidwad: _____ Dyddiad: _____

Healthy Schools
RIGHTS RESPECTING SCHOOLS unicef UNITED KINGDOM RECOGNITION OF COMMITMENT
INVESTOR IN PEOPLE BUDDSODDWYR MEWN POBL

ydd Wir Bydd Weithgar

YSGOL GYFUN
RHYDYWAUN

Mr Mark Jones BEng (Hons), NPQH Pennaeth / Headteacher
Rhodfa Lawrence/Lawrence Ave, Penywaun, Aberdâr, CF44 9ES
Ffôn/Tel: 01685 813500; Ffacs/Fax: 01685 812208 ysgol@rhydywaun.org